

# Digimap for Schools

## Ditectifs Mapiau

Paula Owens

### Adnodd Dysgu Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 2



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

## Digimap ar gyfer Adnoddau Daeryddiaeth Ysgolion

Canllaw i athrawon yw'r adnoddau hyn i ddangos i'r dosbarth cyfan neu i gyfarwyddo myfyrwyr unigol yn ôl y galw. Mae pob gweithgaredd yn cynnwys nifer o syniadau y gallwch eu teilwra i gwrdd ag anghenion eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys taflenni gwaith i'w dosbarthu'n uniongyrchol i'r disgyblion.

### Teitl: Ditectifs Mapiau

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 2	Ffeithiau am Brydain Fawr	Prydain Fawr, amrywiol

Gwybodaeth	Darllen a dod o hyd i wybodaeth o fapiau / defnyddio allwedd map ar wahanol raddfeydd / archwilio mapiau ar raddfeydd gwahanol / defnyddio cyfeirnodau grid / defnyddio'r offeryn mesur
Cysylltu â'r cwricwlwm (Lloegr)	Ymholi, defnyddio mapiau, gwybod sut i ddod o hyd i leoedd ac adnabod nodweddion, defnyddio geirfa ddaeryddol, disgrifio nodweddion a rhinweddau'r tirlun
Cysylltu â'r cwricwlwm (Cymru)	Adnabod a dod o hyd i leoedd ac amgylcheddau gan ddefnyddio globau, atlasau a mapiau. Defnyddio mapiau, delweddau a TGCh i ddod o hyd i wybodaeth am leoedd a'i chyflwyno.
Cwricwlwm yr Alban dros Ragoriaeth	Deilliannau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lle a'r Amgylchedd: SOC 2-14a

## Gweithgaredd

Ymchwilio gwybodaeth a gyflwynir i wirio a yw'n wir neu beidio. Os nad yw'r wybodaeth yn wir, ychwanegu'r wybodaeth gywir. Ymchwilio a llunio datganiadau 'gwir neu gau' eu hunain.

## Cyflwyniad

Mae'r gweithgaredd hwn yn annog disgyblion i ofyn cwestiynau: defnyddio mapiau a'u hallweddau ar raddfeydd gwahanol i ddarllen a dehongli gwybodaeth am leoedd a nodweddion y tirlun. Yn ogystal, mae'n helpu i ddatblygu peth gwybodaeth graidd trwy ddefnyddio ymholiadau gweithredol. Diweddarir y wybodaeth am y mapiau a ddarperir gan *Digimap for Schools* yn flynyddol, felly mae'r wybodaeth o hyd yn gyfredol. Mae'r lefel o fanylder ar bob map, a'r adnodd pori, yn ei gwneud hi'n hawdd chwilio, archwilio a defnyddio gwahanol fathau o wybodaeth.

# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

## Prif weithgaredd

Darperir dwy set o gwestiynau a thaflen ateb fel man cychwyn, ond byddai'n bosibl i'r disgyblion eu haddasu er mwyn creu eu datganiadau 'gwir' neu 'gau' eu hunain, a fyddai'n ymestyn eu hymholiadau annibynnol ymhellach.

## Tasgau

- Gofynnwch i'r disgyblion ddefnyddio un o'r setiau a ddarperir o ddatganiadau 'gwir' neu 'gau' a darllenwch bob datganiad yn ofalus. Bydd angen iddynt ddefnyddio cliwiau yn y datganiadau, er enghraifft enwau lleoedd, i chwilio a dod o hyd i'r lle penodol a chanfod a yw'r datganiad yn wir ai peidio. Weithiau, bydd angen iddynt glosio i mewn at y map a thynnu allan oddi wrth y map i ddod o hyd i'r ateb. Atgoffwch y disgyblion i ddefnyddio'r offeryn mesur neu i ychwanegu marciwr i'w cynorthwyo nhw gyda rhai o'r cwestiynau. Yn ogystal, bydd agor a defnyddio allwedd y map o gymorth iddynt.
- Bydd rhaid i'r disgyblion benderfynu a yw'r datganiad yn 'wir' neu'n 'gau'. Os yw'n wir, gofynnwch iddynt geisio ychwanegu gwybodaeth ychwanegol. Os yw'n gau, gofynnwch iddynt esbonio pam ac yna i rannu'r ateb cywir.
- Bydd rhaid i'r disgyblion wirio'u hatebion. Gofynnwch iddynt ba ddatganiadau oedd fwyaf lletchwith a pham.
- Heriwch y disgyblion i lunio datganiad 'gwir' neu 'gau' eu hunain, gan sicrhau bod ganddynt yr ateb cywir. Mae'n bosibl iddynt ddefnyddio'r rhain i herio eraill yn y dosbarth.

## Mynd ymhellach

- Lluniwch set o ddatganiadau 'gwir' neu 'gau' ar gyfer dosbarth arall.
- Dewiswch thema, er enghraifft yr ardal leol, afonydd, mynyddoedd neu barciau gwledig.
- Dewiswch un o'r datganiadau oedd o ddiddordeb i chi ac ymchwiliwch i'r ardal honno mewn mwy o fanylder.

## Dolenni

<http://www.woodlands-junior.kent.sch.uk/customs/questions/geography.html>

# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

## Gwir neu Gau?

### Atebion

1. GWIR. Mae gan Newcastle faes awyr rhyngwladol, cyfeirnod grid NZ 193 715.
2. GWIR. Mae yna warchodfa natur RSPB yng nghyfeirnod grid NX 959 118.
3. GAU. Mae St Bees Head ar arfordir y gorllewin, ychydig i'r de o dref Whitehaven.
4. GAU. Mae Camlas Caledonia yn cysylltu arfordir dwyreiniol yr Alban yn Inverness, cyfeirnod grid NH 648 430, gydag arfordir y gorllewin yn Corpach ger Fort William.
5. GAU. Mae Mynyddoedd Cuillin wedi'u lleoli ar Ynys Skye. Cyfeirnod grid NG 45 20.
6. GAU. Gallwch ddal cwch neu hofranlong ond nid oes yna faes awyr yn Ryde, Ynys Wyth. Cyfeirnod grid SZ 593 929. Yn ogystal, mae yna orsaf ar gyfer teithiau trên ar yr ynys.
7. GAU. Mae'r sw (ZSL) wedi'i lleoli ar y ffin ogleddol. Cyfeirnod grid TQ 280 834.
8. GWIR. Mae Cadair Idris yn lle trawiadol sy'n cynnwys amrywiaeth o dirluniau a thir, er enghraifft copaon garw a llynnoedd rhewlifol. Mae Cadair Idris wedi'i leoli ym Mharc Cenedlaethol Eryri, ychydig o gilometrau i'r de o Ddolgellau.
9. GWIR. Mae Red River yn llifo mewn i Gwithian Bay. Cyfeirnod grid SW 582 422.
10. GWIR. Mae Red River Valley wedi'i ddynodi'n Warchodfa Natur Leol. Yn flaenorol, ardal gloddio oedd hi: y gwastraff o'r diwydiant a roddodd i'r afon ei henw. Mae cymysgedd o adfywio naturiol a dynol wedi helpu'r ardal i wella. Cyfeirnod grid SW 621 420.
11. GAU. Traffordd amgylchynol, oddeutu 188 cilometr o hyd, yw'r M25.
12. GAU. Mae Windsor a Rhydychen yn drefi wedi'u lleoli ar Afon Tafwys ond mae Caergrawnt (Sir Gaergrawnt) wedi'i lleoli ar Afon Cam. Cyfeirnod grid TL 441 568.

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013



Trwyddedir y gwaith hwn yn unol â Thrwydded Anfasnachol – Priodoliad Creadigol Cyffredin

# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

## Gweithgaredd – Ditectifs Mapiau

Ymchwiliwch i'r datganiadau isod gan ddefnyddio'r mapiau a'r allweddi i'ch cynorthwyo chi. Ychwanegwch wybodaeth ychwanegol os yw'r datganiad yn wir, er enghraifft cyfeirnod grid, neu fanylion gwir os yw'r datganiad yn gau. Crëwch eich datganiadau gwir neu gau eich hunain.

	Datganiadau 1–6	GWIR / GAU	Gwybodaeth ychwanegol neu gywir
1	Mae gan Newcastle faes awyr rhyngwladol		
2	Mae yna warchodfa natur yn St Bees Head		
3	Mae St Bees Head wedi'i lleoli ar arfordir dwyreiniol Lloegr		
4	Mae Camlas Caledonia yn cysylltu arfordir dwyreiniol yr Alban yn Inverness gydag arfordir y gorllewin yn Corpach, ger Fort William.		
5	Mynyddoedd caregog wedi'u lleoli ar Ynys Mull, yr Alban, yw Mynyddoedd Cuillin.		
6	Gallwch ddal cwch, hofranlong neu awyren yn Ryde, Ynys Wyth.		

# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Ymchwiliwch i'r datganiadau isod gan ddefnyddio'r mapiau a'r allweddi i'ch cynorthwyo chi. Ychwanegwch wybodaeth ychwanegol os yw'r datganiad yn wir, er enghraifft cyfeirnod grid, neu fanylion gwir os yw'r datganiad yn gau. Crëwch eich datganiadau gwir neu gau eich hunain.

	Datganiadau 7–12	GWIR / GAU	Gwybodaeth ychwanegol neu gywir
7	Mae Sw Llundain wedi'i lleoli ger ffin ddwyreiniol Regent's Park, Llundain.		
8	Gwarchodfa fynyddig yw Cadair Idris sy'n rhan o Barc Cenedlaethol Eryri. ( <i>Cyngor – ceisiwch farcio Cadair Idris cyn tynnu allan i weld os yw'n rhan o'r Parc Cenedlaethol</i> ).		
9	Mae Red River yn llifo mewn i Gwithian Bay, Cernyw.		
10	Gwarchodfa Natur Leol wedi'i lleoli ger Red River yng Nghernyw yw Red River Valley.		
11	O'i dechrau i'w diwedd, 100 cilometr yn union yw hyd draffordd yr M25, sy'n creu cylch o amgylch Llundain.		
12	Trefi wedi'u lleoli ar Afon Tafwys yw Windsor, Rhydychen (Sir Rhydychen) a Chaergrawnt (Sir Caergrawnt).		